*Status: This is the original version (as it was originally made). This item of legislation is currently only available in its original format.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 2486 (Cy.270)

# GARDDWRIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaethol Ffres (Cymru) (Diwygio) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *18 Hydref 2011* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *18 Hydref 2011* |
| *Yn dod i rym - -* | *8 Tachwedd 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) o ran polisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer diben a grybwyllir yn yr adran honno o'r Ddeddf honno ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i gyfeiriadau at ddarpariaethau Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 543/2011(**3**) yn yr offeryn y mae'r Rheoliadau hyn yn ei ddiwygio i gael eu dehongli fel cyfeiriadau at y darpariaethau hynny fel y'u diwygiwyd o bryd i'w gilydd.

Mae Gweinidogion Cymru'n gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 a pharagraff 1A o Atodlen 2 iddi(**4**).

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaethol Ffres (Cymru) (Diwygio) 2011.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 8 Tachwedd 2011.

### Diwygio Rheoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaethol Ffres (Cymru) 2009

**2.** Mae Rheoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaethol Ffres (Cymru) 2009(**5**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(**1**) Yn rhinwedd erthygl 3 o Orchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 5) 2010, O.S. 2010/2690.
(**2**) 1972, p.68.
(**3**) OJ Rhif L 157, 15.6.2011, t.1.
(**4**) Mewnosodwyd paragraff 1A yn Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p.51).
(**5**) O.S. 2009/1551 (Cy. 151).

### Diwygio cyfeiriadau at "rheolau marchnata'r Gymuned"

**3.** Yn lle "rheolau marchnata'r Gymuned", ym mhob man (gan gynnwys pennawd rheoliad 4) lle y mae'n digwydd rhodder "rheolau marchnata'r UE".

### Diwygio rheoliad 2

**4.** Yn rheoliad 2—

(a) ym mharagraff (1), yn lle'r diffiniad o "Rheoliad y Comisiwn 1580/2007", rhodder—

> "ystyr "Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn 543/2011" ("*Commission Implementing Regulation 543/2011*") yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 543/2011 dyddiedig 7 Mehefin 2011 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 mewn perthynas â'r sectorau ffrwythau a llysiau a ffrwythau a llysiau wedi eu prosesu(**6**), fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.";

(b) ym mharagraff (2)—

(i) yn lle'r diffiniad o "rheolau marchnata'r UE" (fel y'i diwygiwyd gan reoliad 3), rhodder—

> "ystyr "rheolau marchnata'r UE" ("*EU marketing rules*") yw'r safon farchnata gyffredinol a'r safonau marchnata penodol sy'n cwmpasu ffrwythau a llysiau ffres a restrir yn Rhan IX o Atodiad I i Reoliad y Cyngor 1234/2007, ac sy'n cynnwys y rheolau sy'n ymwneud â'r safonau hynny a geir yn Erthyglau 113 ac 113a o Reoliad y Cyngor 1234/2007 ac yn Nheitl II o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn 543/2011";

(ii) yn lle'r diffiniad o "safonau marchnata cyffredinol", rhodder—

> "ystyr "safon farchnata gyffredinol" ("*general marketing standard*") yw gofynion Erthygl 113a(1) o Reoliad 1234/2007 fel y'u rhoddir yn Erthygl 3(1) a Rhan A o Atodiad I i Reoliad Gweithredu'r Comisiwn 543/2011";

(iii) yn y diffiniad o "safonau marchnata penodol", yn lle "Erthygl 2a(2) a Rhan B o Atodiad I i Reoliad y Comisiwn 1580/2007" rhodder "Erthygl 3(2) a Rhan B o Atodiad I i Reoliad Gweithredu'r Comisiwn 543/2011";

(c) ym mharagraff (3), yn lle "Rheoliad y Comisiwn 1580/2007", rhodder "Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn 543/2011".

### Diwygio rheoliad 3

**5.** Yn rheoliad 3(1), yn lle "Erthygl 8(1)(b) o Reoliad y Comisiwn 1580/2007", rhodder "Erthygl 9(1)(b) o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn 543/2011".

### Diwygio rheoliad 4

**6.** Yn rheoliad 4(3), yn lle "Rheoliad y Comisiwn 1580/2007", rhodder "Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn 543/2011".

### Diwygio rheoliad 8

**7.** Yn rheoliad 8(2), yn lle "Atodiad VI i Reoliad y Comisiwn 1580/2007", rhodder "Atodiad V i Reoliad Gweithredu'r Comisiwn 543/2011".

---

(**6**) OJ Rhif L 350, 31.12.2007, t.1.